

CRYNODEB CYFARFOD

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mai 4ydd 2il 2021 am 7.30 o'r gloch trwy gyfrwng "Zoom"

Presennol: Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Maldwyn Jones, Gary Thomas a'r cler.

Ymddiheuriadau: Meilir Jones, Cyng. Elwyn Edwards

Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwenda Morris am 6 mis oherwydd salwch

i) Croesawu'r cadeirydd newydd (Maldwyn Jones) ac ethol is-gadeirydd - **CYTUNODD RITA JONES AROS YN Y GADAIR TAN Y BYDD POSIB CYNNAL CYFARFOD WYNEB YN WYNEB AC I MALDWYN JONES GYMRYD DROSODD BRYD HYNFY.**

ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau - **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.

Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Eifion Davies

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones

iii) Cyfrifon 2020-21 - **CYMERADWYWYD**

iv) Archwiliad Mewnol y Cyngor / Ffurflen Archwiliad Blynyddol – **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**

v) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd **ADOLYGWYD A CHYTUNWYD I'W CADW RUN FATH.**

vi) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2021/22 – **DERBYNIWYD A NODWYD Y LLYTHYRAU A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORWYR YN CADARNHAU NAD OEDDYNT AM HAWLIO UNRHYW GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.**

vii) Adolygu Asedau, - **ADOLYGWYD A CHYTUNWYD I ARCHWILIO'R ASEDAU CYN Y CYFARFOD NESAF. CYTUNWYD I AIL AFAEL YN Y GWAITH O DRWSIO GIATIAU MYNWENT LLANDDERFEL.**

viii) Adolygu Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor, **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**